# Dynesiad y ffwng: Rheoli iechyd coed yng nghoedwig Afan

Mae coedwig Afan yn ymestyn am 12 milltir ar hyd Dyffryn Afan a’r dyffrynnoedd cyfagos.  Plannwyd y rhan fwyaf o'r goedwig i ddechrau â chnydau conwydd yn y 1950au a'r 60au gyda phlannu pellach yn digwydd yn yr 1980au. Coed llarwydd a phinwydd a blannwyd bryd hyn yn bennaf ar y llethrau isaf a'r bryniau isaf, a choed sbriws ar y llethrau uchaf a’r bryniau uwch.

Mae *Phytophythora ramorum yn* bathogen tebyg i ffwng sy'n achosi niwed helaeth i ystod eang o goed ac yn eu lladd. Yn ystod y pedair blynedd diwethaf, mae dros 650 hectar o goed llarwydd wedi eu cwympo yn nyffryn Afan, ac mae hyn yn cyfateb i ymhell dros 15% o ardal y goedwig. Mae tua 230 hectar o larwydd ar ôl a byddant yn cael eu torri i lawr cyn gynted ag sy’n weithredol bosib. Y tarddiant *Phytophythora ramorum* hwn ar draws Cymru, nid yn Afan yn unig, yw'r achos mwyaf o haint ymledol ar goed ym Mhrydain Fawr ers epidemig Llwyfen yr Isalmaen yn y 1970au.



Mae hyn wedi galw am lawer iawn o gynllunio ac adnoddau er mwyn cyrraedd y lefel o dorri coed sydd ei angen yn Afan ac mae'r gwaith yn parhau. Rydym hefyd wedi gorfod gweithio gyda'r sector coedwigaeth i gefnogi gwerthu mwy o goed llarwydd yn y farchnad.

Yn anffodus, mae'r cwympo wedi gadael ei ôl ar agweddau gweledol, tirwedd ac amwynderau'r dyffryn ond bydd y rhain yn gwella maes o law. Mae'r dywediad "daw heulwen wedi’r glaw" dal yn wir yn Afan. Rydym yn ceisio gwneud y gorau o'r hyn sydd wedi digwydd trwy weithredu newidiadau fydd yn gwneud y goedwig yn fwy gwydn yn wyneb bygythiadau yn y dyfodol.

Fe wnaethom ymgynghori â'r gymuned leol ynglŷn â’n newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Dylunio Coedwig a gwnaethant nifer o argymhellion gan gynnwys cynyddu’r gorchudd llydanddail, darparu golygfannau parhaol ar draws y dyffryn, lleihau torri a chlirio coed, cynllunio ar gyfer mwy o gymysgeddau lliw tymhorol, gwella nodweddion daearegol a chynyddu cyfleoedd ar gyfer hamdden a thwristiaeth .

Trwy raglen gynyddol o ail-stocio coed rydym yn gweithio i gael Afan yn ôl ar ei thraed cyn gynted â phosib. Rydym yn plannu ystod ehangach o rywogaethau, gan gynnwys coed llydanddail, i wella amrywiaeth y goedwig a gwella’r cysylltedd rhwng cynefinoedd. Rydym hefyd yn cadw rhai cnydau y mae’n bosib y byddem wedi ystyried eu torri’n gynt pe na bai’r *Phytophthora ramorum* wedi heintio'r coed llarwydd, er mwyn gwella golwg weledol y dyffryn a chefnogi hamdden.

Ar Drywydd Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: